



IoD CYMRU

Maniffesto 2026

Ynglŷn â IoD Cymru

Mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IoD) yn gorff Siarter Frenhinol sy'n bodoli i hyrwyddo menter, llywodraethu da ac uniondeb ymhlith arweinwyr busnes.

Yng Nghymru, mae gan yr IoD aelodaeth amrywiol o fwy na 400 o gyfarwyddwyr ac uwch arweinwyr, o'r sector preifat, cyhoeddus a thrydydd sector ar draws pob rhanbarth o'r wlad. Mae'r aelodau'n cynnwys Prif Weithredwyr corfforaethau mawr, yn ogystal â chyfarwyddwyr entrepreneuraidd cwmnïau newydd.

Rhoddwyd Siarter Frenhinol i'r IoD ym 1906, yn ei gyfarwyddo i "gynrychioli buddiannau aelodau a'r gymuned fusnes i'r llywodraeth yn yr arena gyhoeddus, ac i annog a meithrin hinsawdd sy'n ffafriol i weithgarwch entrepreneuraidd a chreu cyfoeth." Rydym yn hyrwyddo'r achos dros fusnes mewn llywodraethau, seneddau, y cyfryngau a fforymau dylanwadol eraill.

Mae'r Siarter hefyd yn rhoi'r dasg i'r Sefydliad hyrwyddo "er budd y cyhoedd, lefelau uchel o sgil, gwybodaeth, cymhwysedd proffesiynol ac uniondeb ar ran cyfarwyddwyr", ac mae'r IoD yn cyflawni hyn drwy gyrsiau hyfforddi a chyhoeddiadau ar lywodraethu corfforaethol.

Mae'r IoD bob amser yn siarad ar ran aelodau, yn ddiudedd.



Cyflwyniad

Daw etholiad Senedd Cymru 2026 ar adeg dyngedfennol i economi Cymru. Bydd yr etholiad ym mis Mai yn cyflwyno system bleidleisio newydd ac yna Senedd wedi'i hehangu'n sylweddol. Bydd y diwygiadau hyn ar yr un pryd yn cynyddu capasiti ac yn profi cymhwysedd democratiaeth ddatganoledig sy'n aeddfedu yng Nghymru, gan osod y naws a'r tempo ar gyfer llywodraethu yn y dyfodol ac ymgysylltiad y cyhoedd mewn gwleidyddiaeth.

Dros gyfnod 2024/25, bu IoD Cymru yn gweithio'n agos gyda'n Pwyllgor Polisi ar ran ein haelodau ehangach, i ddatblygu rhai o ofynion allweddol ein maniffesto yn y papur hwn.

Yn ogystal â'r ymgysylltiad hwn, mae'r IoD hefyd wedi cynnal digwyddiadau, wedi cynnal ymchwil ac am y tro cyntaf, cyhoeddom ein hadroddiad Cyflwr y Genedl. Mae'r dystiolaeth hon, a gasglwyd o ymatebion i arolygon, wedi tynnu sylw at brinder sgiliau ac ansicrwydd polisi ymhlith y rhwystrau mwyaf arwyddocaol i fuddsoddiad a thwff.

Rydym wedi cymryd amser i wrando'n ofalus ar ein cymuned, ac rydym yn credu bod y cynigion a amlinellir yn y maniffesto hwn yn creu'r amodau sydd eu hangen ar ein gwlad i ryddhau'r potensial enfawr ar gyfer Cymru fwy entrepreneuriaidd; gyda chydweithio rhwng y llywodraeth, busnesau a'r trydydd sector yn elfen hanfodol.

Mae IoD Cymru yn edrych ymlaen at feithrin a chynnal perthynas waith gadarnhaol gyda Llywodraeth nesaf Cymru. Fel partner dibynadwy, byddwn yn harneisio ein harbenigedd arweinyddiaeth i weithio gyda'n gilydd dros Gymru fwy ffyniannus, gan greu twf economaidd cynaliadwy i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn lle deniadol i fyw, gweithio, buddsoddi a ffynnu.

Adroddiad Cyflwr y Genedl

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth feiddgar ar gyfer economi Gymreig ffyniannus, gynhyrchiol a blaengar, dan arweiniad cyfarwyddwyr sydd ag ymrwymiad i broffesiynoldeb, llywodraethu da ac amrywiaeth. I gyflawni hyn, rhaid i ni gydnabod yn gyntaf y rhwystrau presennol i dwf yng Nghymru.

Adroddodd ymatebwyr i'n harolwg Cyflwr y Genedl cyntaf mai eu tri phrif her yw:

39%

Prinder sgiliau

36%

Ansicrwydd polisi

29%

Cost llafur/
deunyddiau

Er mwyn mynd i'r afael â'r tair her hyn a meithrin entrepreneuriaeth, arloesedd a datblygiad rhanbarthol, mae ein maniffesto wedi'i strwythuro o amgylch tair colofn graidd yr IoD:




Cysylltu

Cydweithio a Chysylltiad:
gyda'i gilydd a gyda
ffynonellau cymorth



Datblygu

Llywodraethu ac
Arweinyddiaeth:
cyfarwyddwyr gwell ar
gyfer Cymru well



Dylanwadu

Cynllunio Economaidd:
sefydliadau sy'n cael eu
rhedeg yn well ar gyfer
economi well



Cysylltu

Cydweithio a chysylltiad: gyda'i gilydd a gyda ffynonellau cymorth

Yn IoD Cymru, rydym yn hwyluso miloedd o gysylltiadau bob blwyddyn ac rydym yn gweld pŵer trawsnewidiol cydweithio ar gyfer busnesau ledled Cymru.

Credwn y bydd ymestyn yr ysbryd hwn o gydweithrediad gwirioneddol o fusnesau, trwy bob lefel o lywodraeth a'r trydydd sector, yn drawsnewidiol ym maes twf.

Bydd creu diwylliant o gyfle, dileu strwythurau diangen o gymhleth a gwella gwelededd ffynonellau cymorth sy'n hawdd eu cyrraedd yn rhoi llwybr clir i arweinwyr presennol a rhai'r dyfodol gyfrannu at ffyniant ein gwlad.

Mae ein haelodau'n dweud wrthym fod y rhwydwaith cymorth, o gyllid i arbenigedd, yn rhy gymhleth a gall fod yn heriol i'w lywio.

Yn ogystal, mae ffocws parhaus ar seilwaith, digidol a ffisegol, i wella busnes a bywydau dinasyddion, wedi'i nodi fel blaenoriaeth gan aelodau'r IoD yng Nghymru.

Bydd gwella seilwaith ar draws pob rhanbarth o Gymru yn caniatáu cymdeithas fwy ffyniannus a chyfartal.

Argymhellion Allweddol:

- Creu, meithrin a hwyluso amgylchedd agored ar gyfer cydweithio traws-sector, er mwyn sicrhau'r cysylltiad a'r cydweithrediad mwyaf ystyrlon er budd pawb.
- Cynyddu gwelededd, lleihau cymhlethdod a gwella mynediad at ffynonellau cymorth priodol ac amserol, gan ddatgloi llwybr clir i ffyniant ar gyfer busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu.
- Sicrhau seilwaith i Gymru sy'n cefnogi twf a datblygiad economaidd yn uniongyrchol.

Datblygu

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth: cyfarwyddwyr gwell ar gyfer Cymru well

Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth wrth wraidd pwrpas a chenhadaeth yr IoD. Gwyddom y bydd gwneud hyn yn iawn yn datgloi gyrwyr sylweddol a chynaliadwy yn economi Cymru.

Mae arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd cryfach yn bileri allweddol ar gyfer meithrin gwydnwch, gyda hyfforddiant lefel uchel yn chwarae rhan hanfodol wrth godi safonau ar draws holl fusnesau Cymru.

Bydd buddsoddi mewn llywodraethu ac arweinyddiaeth eithriadol yn darparu'r sylfaen i adeiladu dyfodol Cymru arni. Dylai hyn gynnwys y sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni o ddydd i ddydd, ochr yn ochr ag arloesedd entrepreneuriaidd, gweledigaeth a gwydnwch.

Dylid ymgorffori meithrin sgiliau ledled y system addysg, llwybrau galwedigaethol a thrwy gyflwyno sgiliau proffesiynol drwy ddysgu gydol oes, sy'n hygyrch i bawb.

Mae cryfder enfawr hefyd yn natblygiad llywodraethu datganoledig ar draws ein dinasoedd, trefi a chymunedau, er mwyn teilwra strategaethau economaidd i anghenion lleol. Mae fframweithiau buddsoddi rhanbarthol ac arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn helpu i gadw gwerth economaidd pwysig yn lleol.

Argymhellion Allweddol:

- Cyflwyno strategaeth economaidd gadarn. Dylai hyn gydnabod gwerth hyfforddiant proffesiynol i gyfarwyddwyr a sefydlu disgwyliad ar gyfer arweinyddiaeth gyfrifol.
- Gwneud y mwyaf o weledigaeth arweinwyr presennol a darpar arweinwyr drwy fuddsoddi mewn arweinyddiaeth a llywodraethu, gan ddarparu gwydnwch ar gyfer twf economaidd.
- Ehangu ar lwyddiant y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflwyno'n barhaus a lle Cymru fel arweinydd yn y math hwn o fenter.

Dylanwadu

Cynllunio Economaidd: sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn well ar gyfer economi well

Mae IoD Cymru yn credu bod cenedlaethau'r dyfodol yn haeddu economi sy'n ddeinamig ac yn wydn, gan ddarparu twf cynaliadwy i fusnesau a dinasyddion ledled Cymru gyfan.

Mae IoD Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ganolbwyntio ar amgylchedd sy'n cefnogi busnes ledled Cymru ac sy'n annog entrepreneuriaeth, arloesedd a buddsoddiad. Yn ogystal â hyn, bydd datblygiadau i lunio polisiâu sy'n seiliedig ar leoedd ledled Cymru yn adeiladu economi sy'n ymatebol i gryfderau a heriau unigryw gwahanol ranbarthau Cymru.

Mae ein haelodau'n dweud wrthym eu bod yn gweld manteision enfawr o gydweithio trawsffiniol mwy, yn enwedig rhwng Cymru a Lloegr. Credwn y gallai mwy o gydweithio ar bob lefel o lywodraeth arwain at well defnydd o adnoddau, fel data a rennir a rhwydweithiau ymchwil.

Mae prinder sgiliau yng Nghymru wedi dod yn bryder sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i aelodau'r IoD ac mae'n flaenoriaeth polisi allweddol.

Gall y prinderau hyn rwystro twf economaidd drwy gyfyngu ar allu Cymru i ddiwallu gofynion diwydiannau a sectorau, gan arwain at aneffeithlonrwydd a chyfleoedd economaidd a gollwyd.

Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn hanfodol i sicrhau gweithlu ffyniannus a chynhyrchiol yng Nghymru.

Rhaid i Gymru lwyddiannus a deinamig ganolbwyntio ar entrepreneuriaeth ac arweinyddiaeth wydn, gan greu'r genhedlaeth nesaf o dalent. Hoffai IoD Cymru weld mwy o bwyslais ar lywodraeth a busnes yn cydweithio i archwilio llwybrau arloesol, gan gynnwys y diaspora Cymreig, i annog mwy o fuddsoddiad ac entrepreneuriaeth yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus mewn byd sy'n newid yn gyflym a byddem yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i edrych ar gyllido cyfleoedd dysgu gydol oes i ddiogelu'r economi ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod arweinwyr a dinasyddion Cymru wedi'u cyfarparu i wynebu'r cyfleoedd a'r heriau sydd o'u blaenau.

Argymhellion Allweddol:

- Dylai strategaethau a rhaglenni cyflawni a ariennir gan y llywodraeth geisio alinio buddsoddiad cyhoeddus, egni ac ymdrech â sectorau potensial uchel yng Nghymru, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gyflwynir gan strategaeth ddiwydiannol ehangach y DU.
- Dylai'r sgwrs sgiliau fod yn gyfannol yn ei dull. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gynnwys darparwyr y sector cyhoeddus a phreifat wrth ddatblygu ymyriadau a chyflenwi posibl gyda ffocws cryf ar ddull sy'n cael ei arwain gan alw.

Casgliad

Mae gan gyfarwyddwyr ac arweinwyr Cymru y dalent, y penderfyniad a'r uniondeb i chwarae rhan enfawr yn y broses o drawsnewid economi Cymru. Er mwyn cyflawni ein potensial llawn, yn gyntaf mae angen i ni harneisio pŵer cydweithio rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Drwy agor llinellau cyfathrebu clir ar draws sectorau, cydweithio â thryloywder ac ymddiriedaeth a dileu rhwystrau i ddatblygu busnes cyfrifol, byddwn yn datgloi addewid llawn ein gwlad.

Mae IoD Cymru yn barod i sefyll ochr yn ochr â phob lefel o lywodraeth, rhanddeiliaid a chymunedau i gydweithio i gyflawni Cymru lewyrchus a chynaliadwy.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym yn galw am ymrwymiad cenedlaethol o'r newydd i ddatblygiad proffesiynol cyfarwyddwyr o'r radd flaenaf ar gyfer busnesau sy'n cael eu rhedeg yn well.

Mae Cymru'n haeddu economi gynaliadwy sydd wedi'i hadeiladu ar arweinyddiaeth gyfrifol, foesegol a chydymffurfiol â'r gyfraith, wedi'i hategu gan sylfaen o lywodraethu priodol ar bob lefel. Byddem yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan annatod o gefnogi'r uchelgeisiau hyn.

Mae angen i Lywodraeth nesaf hyderus a dewr Cymru gydweddu â photensial ac uchelgais busnesau Cymru nawr.

Y manifesto hwn yw ein galwad i fanteisio ar y cyfle, harneisio ein profiad a'n hegri ar y cyd, ac adeiladu economi gryfach, mwy amrywiol a chysylltiedig gyda'n gilydd, sy'n cyflawni'n wirioneddol i bawb, ym mhob rhan o Gymru, nawr ac yn y dyfodol.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ein manifesto yn fanylach, cysylltwch â marc.strathie@iod.com



The Institute of Directors is a non-party political organisation, founded in 1903, with 20,000 members. Membership includes directors from right across the business spectrum, from media to manufacturing, professional services to the public and voluntary sectors. Members include CEOs of large corporations as well as entrepreneurial directors of start-up companies.

The IoD was granted a Royal Charter in 1906, instructing it to “represent the interests of members and of the business community to government and in the public arena, and to encourage and foster a climate favourable to entrepreneurial activity and wealth creation.” The Charter also tasks the Institute with promoting “for the public benefit high levels of skill, knowledge, professional competence and integrity on the part of directors”, which the IoD seeks to achieve through its training courses and publications on corporate governance.

For information on how to join the IoD’s thriving membership community, visit our website iod.com



Scan the QR code
to access other reports and
publications from the IoD

